# I WELLA'R GOFAL A DDARPERIR I BLANT A PHOBL IFANC SY'N CAEL LAWDRINIAETH ANNHEWISOL

Adolygodd NCEPOD ofal plant a phobl ifanc a gafodd driniaeth frys (annhewisol) rhwng dau gyfnod amser i gyfrif am amrywiad tymhorol (17 Mehefin i 30 Mehefin 2024 a 12 Chwefror i 25 Chwefror 2024). Adolygwyd yr ofal gan ddefnyddio 853 o setiau o nodiadau cleifion, 679 o holiaduron llawfeddygaeth, 760 o holiaduron nwyanyddiaeth a 143 o holiaduron trefniadol, yn ogystal â dros 600 o ymatebion i arolwg.

## 1. Darparu mynediad brydlon at ofal llawfeddygol a nwyanyddol brys gan arbenigwyr sydd â'r hyfforddiant a'r profiad perthnasol i ddarparu gofal i blant a phobl ifanc.

### AM EIN BOD NI WEDI CANFOD BOD

**Nid oedd rhwydweithiau wastad ar waith ac roedd diffyg llwybrau neu weithdrefnau strwythuredig i drosglwyddo cleifion pan oedd angen, er bod trosglwyddiadau yn gyffredin.**

Roedd 19/143 o ysbytai (13.3%) nad oeddent yn rhan o rwydwaith gofal ar gyfer gweithdrefnau annhewisol mewn plant a phobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o ysbytai yn adrodd eu bod yn trosglwyddo cleifion allan ar gyfer llawdriniaeth (133/143; 93.0%).

Dim ond 287/629 o gleifion (45.6%) a ddechreuodd ar lwybr penodol ar gyfer llawdriniaeth frys mewn plant a phobl ifanc. Dylai llawer o'r cleifion nad oeddent arno fod wedi bod (83/255; 32.5%).

## 2. Dylai un neu fwy o gydlynwyr llawdriniaethau brys fod ar waith er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc sydd angen llawdriniaeth frys gael mynediad at theatr.

### AM EIN BOD NI WEDI CANFOD BOD

**Dangoswyd bod gofal yn well mewn canolfannau lle'r oedd cydlynydd llawdriniaethau brys ar gael, ond nid oedd rhywun yn y rôl hon bob amser ac, yn ogystal, prin y nodwyd unrhyw amserlenni gan y systemau archebu theatr.**

Adroddodd yr adolygwyr fod y mwyafrif o gleifion wedi cael eu gweithdrefnau eu harchebu heb oedi, ond bu i 131/853 o gleifion (15.4%) brofi oedi oherwydd oedi o fewn neu gyda'r tîm llawfeddygol.

Dim ond mewn 60/143 o ysbytai (42.0%) yr oedd rheolwyr neu glinidogion cydlynu theatr ar gael.

Dim ond 52/143 o ysbytai (36.4%) oedd â chlinigwr yn gyfrifol am asesu capasiti yn y theatrau ar sail ddyddiol.

## 3. Atal plant a phobl ifanc sy'n aros am lawdriniaeth frys rhag cael eu cadwheb fwyd am unrhyw gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol.

### AM EIN BOD NI WEDI CANFOD BOD

**Prin oedd y cofnodi o gyfnodau ymprydio mewn polisïau ysbytai ar gyfer gweithdrefnau brys i blant a phobl ifanc, ac roedd llawer o gleifion yn cael eu cadw heb fwyd am gyfnod rhy hir cyn llawdriniaeth.**

Yn ôl barn yr adolygwyr, roedd 125/718 o gleifion (17.4%) wedi ymprydio am gyfnod rhy hir, gyda'r rhai a gafodd weithdrefn gyflymedig fwyaf tebygol o fod yn y categori hwn.

Roedd y paratoad cyn gweithdrefn yn ddigonol ar gyfer y mwyafrif o gleifion (798/853; 93.6%), fodd bynnag, roedd ymprydio (10/55) yn faes cyffredin ar gyfer ei wella.